



Rhaglen Gweithgareddau Gartref **i Blant Bach** 16 mis i 3 blwydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Lechyd Prifysgol
Hywel Dda
Hywel Dda University
Health Board



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire

County Council



RHAGLEN GWEITHGAREDDAU GARTREF



Annwyl Riant / Gofalwr,

Defnyddiwch y llyfr hwn gartref gyda'ch plentyn i gynorthwyo'ch plentyn i ddysgu siarad a mwynhau rhigymau, caneuon a llyfrau o oedran cynnar.

Bydd hyn yn helpu i ddatblygu sgiliau darllen yn y dyfodol a bydd o gymorth wrth symud i'r feithrinfa ac i'r ysgol.

A wyddech chi...

- Mae canu rhigymau o oedran cynnar yn gallu helpu'ch plentyn i ddysgu siarad
- Mae eich plentyn yn hoffi clywed yr un gân dro ar ôl tro - mae ailadrodd yn dda
- Os yw eich plentyn/plant yn gwybod llawer o ganeuon a rhigymau, byddant yn dysgu darllen yn haws

Mae'r pecyn gweithgareddau gartref hwn wedi'i lunio gan Wasanaeth Iaith a Chwarae Dechrau'n Deg Sir Gaerfyrddin, er mwyn cynorthwyo plant rhwng 16 mis a 3 blwydd oed i ddatblygu iaith yn gynnar a hybu hyn.

Sylwer: Peidiwch byth â gadael eich babi neu'ch plentyn ar ei ben ei hun yn ystod y gweithgareddau hyn. Cynghorir rhieni i sicrhau bod plant yn cael eu goruchwyllo bob amser. Sicrhewch nad yw'r offer wedi'i ddifrodi a'i fod yn addas i'w ddiben.

CAR / CERBYD



Wrth chwarae gyda'r car a ddarperir, ailadroddwch synau a geiriau megis “brwm”, “bib bib”, “car”, “cratsh”.

Ailadroddwch a datblygwch yr hyn y mae eich plentyn yn ei ddweud e.e. os yw'n dweud “car” gallech ddweud “car Mami” neu “Dadi yn gyrru'r car,” bydd hyn yn helpu'ch plentyn i ddysgu sut i roi geiriau gyda'i gilydd.

Anogwch sgiliau gwrando drwy ddefnyddio gemau ‘Ar eich marciau, barod, ewch’ gyda'r car e.e. ei symud yn ôl ac ymlaen, neu ddefnyddio darn o gardbord i wneud ramp er mwyn i'r car rollo i lawr. Gallech hefyd ddefnyddio tiwbiau creision gwag i greu twnnel.

Dim cerbyd? Dim problem!



Pêl

Os nad oes gennych gerbyd, gallech ddefnyddio pêl. Rholiwch y bêl i lawr y twnnel tiwbiau gan ddweud “ewch” neu ‘Ar eich marciau, barod, ewch’



Ffrwythau

Os nad oes gennych gerbyd, gallech hefyd ddefnyddio ffrwyth megis oren neu lemon i gael llawer o hwyl.



Rîl Gotwm

Os nad oes gennych gerbyd, defnyddiwch hen rîl gotwm i rollo i lawr y twnnel tiwbiau, gan ddweud “ewch” neu “Ar eich marciau, barod, ewch”

Anogwch sgiliau gwrando drwy chwarae gemau

“Ar eich marciau, barod, ewch” gyda'ch plentyn.



Siaradwch am yr hyn y mae eich plentyn yn ei wneud. e.e.“ceffyl” neu “golchi ceffyl”. Gwnewch weithredoedd ac edrychwch i weld a fydd y babi’n eich copïo.

Bydd hyn yn helpu'ch plentyn i ddeall categorïau a threfnu, a fydd yn hybu sgiliau meddwl yn gynnar.

Os nad oes gennych unrhyw anifeiliaid bach, gallech dorri lluniau o gylchgrawn neu gatalog.

A pair of blue and white patterned gloves, likely made of wool or a similar knit material. The gloves feature a geometric diamond pattern in white on a blue background. The cuffs are ribbed and have a white stripe. The gloves are shown against a white background with a blue border on the left.

Gwnewch eich corryn
eich hun gyda hen
faneg i gael oriau
o hwyl yn canu “Y
Corryn” o’r llyfr
caneuon.



Os nad oes gennych unrhyw deganau meddal/anifeiliaid, gallwch annog eich plentyn i dynnu llun o'i hoff anifail a gwneud y synau.

Efallai mai anifail wedi'i stwffio/tegan fydd ffrind cyntaf

eich plentyn, ac mae'n wych ar gyfer chwarae dychymyg.

JIG-SO



Bydd defnyddio jig-sos yn helpu'ch plentyn i ddatblygu ei gydsymudiad, ei gof, a'i sgiliau gweledol. Anogwch eich plentyn i enwi'r eitemau sydd ar y jig-so os yw'n gallu.

Anogwch eich plentyn i ddefnyddio geiriau mwy cymhleth megis berfau e.e. cysgu, cerdded, neidio. Gallwch hefyd ddefnyddio ansoddeiriau e.e. mawr/bach, cyflym/araf.

Dim jig-so? Dim problem!



Cylchgrawn

Os nad oes gennych jig-so, gallech bwyntio at luniau mewn llyfr/ cylchgrawn wrth eu henwi neu ddefnyddio gwrthrychau pob dydd.

Defnyddiwch lun o gylchgrawn y mae eich plentyn yn ei hoffi. Byddai maint A4 yn ddelfrydol. Torrwch y llun allan a'i roi ar gerdyn, wedyn torrwch y cerdyn yn bedwar darn i wneud pos hwyl.

Gallwch chwarae gêm cofio gyda'ch plentyn drwy ddefnyddio gwrthrychau pob dydd, e.e. llwy, brwsh gwallt, brwsh dannedd etc.

Os yw eich plentyn yn gallu enwi'r gwrthrychau, rhowch y gwrthrychau ar hambwrdd. Gorchuddiwch yr hambwrdd â lliain a thynnwch un eitem ar y tro oddi arno i weld a yw'r plentyn yn gwybod pa un sydd wedi diflannu. Os nad yw eich plentyn yn gallu gwneud hyn, dywedwch enwau'r gwrthrychau.

Bydd gwneud jig-sos gyda'ch plentyn

yn helpu i ddatblygu ei iaith.

OFFERYN CERDD



Rhowch yr offeryn cerdd yn llaw eich plentyn a'i helpu i'w ysgwyd.

Bydd hyn yn datblygu cydsymudiad dwylo a llygaid, cyswllt llygaid a sgiliau gwrando.

Bydd canu caneuon/ hwiangerddi wrth ddefnyddio'r offeryn yn helpu i ddatblygu iaith yn gynnar.

Anogwch eich plentyn i'ch copio wrth i chi wneud gweithredoedd syml gyda'r offeryn e.e. ei guro ar y llawr, ei dapio â'ch llaw ac ati.

Dim offeryn? Dim problem!



Sosbenni a Phadelli

Gwnewch ddrymiau gan ddefnyddio sosbenni a phadelli a llwy bren!



Caniau Gwag

Gallwch ddefnyddio caniau gwag i wneud offerynnau cerdd. Ond sicrhewch eich bod yn cael gwared ar gloriau miniog ac yn glanhau'r can yn drylwyr.



Reis neu Basta

Os nad oes gennych offeryn cerdd, gallwch ddefnyddio potel blastig fach llawn reis neu basta i greu seiniau. Sicrhewch fod y botel wedi'i selio'n gadarn.

Mae rhyngweithio ag offerynnau cerdd yn ffordd wych o ddatblygu

cydsymudiad dwylo a llygaid, cyswllt llygaid a sgiliau gwrando eich plant.

PAD PAENT



Defnyddiwch y pad paent i greu atgofion o olion dwylo/traed eich babanod.

Anogwch eich plentyn i fod yn greadigol gan ddefnyddio amrywiaeth o wahanol ddulliau o baentio e.e. paentio â bwyd gan ddefnyddio llysiau neu ffrwythau, ffyn cotwm neu sbyngiau.

Ceisiwch annog eich plentyn i ddweud geiriau megis “anniben,” “paent coch,” “stampio” ac ati

Mae plant yn defnyddio dwy ochr yr

Dim pad paent? Dim problem!



Iogwrt Naturiol
Os nad oes gennych unrhyw badiâu paent, gallech ddefnyddio iogwrt naturiol a lliwiau bwyd sy'n addas i blant/babanod.



Dŵr
Defnyddiwch fwcet bach o ddŵr a brws paentio sydd gennych yn y tŷ (sichewch eich bod yn ei lanhau). Gallwch baentio ar y llwybr neu'r wal yn yr ardd.



Powdwr Coco
Gallech ddefnyddio powdwr coco, a'i gymysgu gyda dŵr cynnes. Gallai'ch plentyn ddefnyddio ei ddwylo i wneud olion dwylo mwdlyd.

ymennydd wrth baentio.

LLYFR CANEUON



Canwch hoff hwiangerddi
eich plentyn gan
ddefnyddio'r llyfr caneuon.
Gadewch i'ch plentyn
ddewis llun a chanwch y gân
yn araf i'w helpu i wrando ar
y geiriau.

Anogwch eich babi i gopïo
gweithredoedd a geiriau os
yw'n gallu.

Gallwch gael rhagor o
wybodaeth ar wefan
yr Ymddiriedolaeth
Llythrennedd Genedlaethol
contact@literacytrust.org.uk

Defnyddiwch eich llyfrgell lleol i gael mwy o syniadau am ganeuon a rhigymau.

Dim llyfr caneuon? Dim problem!

Dau gi bach yn
mynd i'r coed.
Dau gi bach y
mynd i'r coed,
esgid newydd
am bob broed,
Dau gi bach y
dwad adre
Wedi colli un o'u
sgidie.

I hear thunder.
I hear thunder.
Hark don't you?
hark don't you?
Pitter patter
raindrops,
pitter patter
raindrops.
I'm wet through,
so are you!

I'm a little tea
pot short and
stout here's my
handle here's
my spout.

When I get all
steamed up
hear me shout
tip me over and
pour me out.

Chwiliwch am eich llyfrgell leol yma: www.sirgar.llyw.cymru/llyfrgelloedd



CYNGHORION Y RHAGLEN WEITHGAREDDAU

